# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 12 Mawrth 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Cynllun Adfywio Sir Benfro

**C8 Cynog Dafis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau diweddaraf yng nghynllun adfywio Sir Benfro? (OAQ23091) [W]

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Andrew Davies):** Ar 7 Chwefror, lansiais y cynllun adfywio drafft ar gyfer Abergwaun a gogledd Sir Benfro. Yn ôl ein haddewid, yr ydym wedi ymgynghori'n eang ar y cynigion, a disgwylir y bydd y cynllun terfynol yn cael ei gwblhau yn ystod mis Mawrth

### Methiant y Llywodraeth i gyrraedd Targed Creu Swyddi

**C9 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fethiant Llywodraeth y Cynulliad i gyrraedd ei tharged o greu 34,000 o swyddi newydd yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd erbyn mis Mawrth 2003? (OAQ23094) [W]

**Andrew Davies:** Mae'n rhy gynnar i ddweud nad yw'r targed wedi'i gyrraedd gan nad ydym eto wedi gweld unrhyw ffigurau ar gyfer cyflogaeth yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Mai. Mae'r ffigurau mwyaf diweddar sydd ar gael, ar gyfer y flwyddyn hyd fis Tachwedd y llynedd, yn dangos bod lefel cyflogaeth yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi codi 22,000 ers i'r Cynulliad gael ei greu yn 1999. O gofio'r hyn a fu'n digwydd yn economi'r byd ers hynny, mae hyn yn gynnydd sylweddol.

### Rhaglenni MasnachCymru Rhyngwladol

**C10 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar raglenni MasnachCymru Rhyngwladol? (OAQ23113)

**Andrew Davies:** Mae rhaglenni MasnachCymru Rhyngwladol wedi eu cynllunio yn bwrpasol i helpu cwmnïau o Gymru baratoi ar gyfer mynediad i farchnadoedd tramor, ddod o hyd i gyfleoedd a tharo cytundebau. Hyd yma, bu'r rhaglenni hyn yn help i greu 105 o allforwyr newydd, canfod gwerth dros £1 biliwn o gyfleoedd, ac wedi sicrhau gwerth bron i £0.25 biliwn mewn archebion.

### Mynd i'r Afael â Diweithdra Uchel

**C11 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y mesurau y mae'r Cynulliad yn eu cymryd i fynd i'r afael â phroblem y pocedi o ddiweithdra uchel yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig? (OAQ23111)

**Andrew Davies:** Mae 'Cymru'n Ennill' yn amlinellu polisïau datblygu economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys y rheini i greu cymunedau cryf. Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill i 31 Ionawr 2003, darparodd Llywodraeth y Cynulliad dros £10 miliwn o gymhorthdal grant i 112 o gwmnïau yn y Gogledd. Bydd y prosiectau hyn yn denu bron i £33

miliwn o fuddsoddiad i'r ardal, ac mae disgwyl iddynt greu dros 750 o swyddi a diogelu bron i 130 o swyddi eraill.

Bydd y cymunedau mwyaf difreintiedig Cymru hefyd yn elwa ar y lefelau mwyaf o gymorth a chynhaliaeth o raglenni Amcan 1 a Cymunedau'n Gyntaf. Ym mis Ionawr 2003, yr oedd diweithdra ar sail nifer hawlwyr yn Nyffryn Clwyd 36 y cant yn is nag oedd ym mis Ionawr 1999.

*Tynnwyd cwestiwn 12 (OAQ23121) yn ôl.*

### Teledu Daearol Digidol

**C13 Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi i ba raddau y mae teledu daearol digidol ar gael yng Nghymoedd y De ac ym mha ardaloedd? (OAQ23117) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Andrew Davies:** Nid mater datganoledig yw hwn, ond mae Llywodraeth y Cynulliad yn weithgar o ran trafod y mater â Llywodraeth y DU. Yn benodol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymddiddori'n fawr yng ngweithgareddau Llywodraeth y DU yn ei chynllun gweithredu teledu digidol, yn enwedig yr agweddau hynny sy'n ceisio gwerthuso anghenion a phroblemau pobl Cymru o ran gallu cael teledu digidol.

### Buddsoddiad Sector Preifat yn Ardal Abertawe

**C14 Peter Black:** Pa fuddsoddiad ychwanegol y mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi ei ddenu er 1999 i'r sector preifat yn ardal Abertawe? (OAQ23126)

**Andrew Davies:** Er 1 Ebrill 1999, mae'r WDA wedi denu cyfanswm o £79.8 miliwn o fuddsoddiad sector preifat i ardal Abertawe. Mae'r ffigur yn cynrychioli cymorth i 13 prosiect, gan gynnwys buddsoddiadau mawr gan Pure Wafer Ltd ac International Rectifier.

### Ffyrdd Newydd ar gyfer y Gogledd

**C15 Alison Halford:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod ffyrdd newydd ar gyfer y Gogledd yn rhan hanfodol o unrhyw gynlluniau i ddatblygu'r ardal honno yn economaidd? (OAQ23122)

**Andrew Davies:** Ceir amcanion strategol y rhaglen briffyrdd yn glir yn y fframwaith trafnidiaeth ac yn y flaenraglen briffyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys cadw, cynnal a gwella'r rhwydwaith i ateb anghenion economaidd Cymru. Bydd y gwaith o ystwytho'r A494/A550 rhwng Parc Glannau Dyfrdwy a Drome Corner, a'r A494 rhwng Drome Corner ac Ewloe, yn mynd rhagddo yn y tymor byr fel rhan o'r rhaglen briffyrdd. Bydd hyn yn cynyddu capasiti coridor strategol y Dwyrain Orllewin, fel a nodir yn y fframwaith trafnidiaeth. Prif wythïen economaidd y Gogledd yw'r coridor hwn, sydd hefyd yn rhan bwysig o'r rhwydwaith ffyrdd ar draws Ewrop, sy'n cysylltu Iwerddon â thir Ewrop.